



National Theatre Wales

Swydd-ddisgrifiad Prentis Digwyddiadau Byw

Prif ddiben y swydd

Bydd y Prentis Digwyddiadau Byw yn cael cyfle i weithio ochr yn ochr ag amrywiaeth o adrannau yn National Theatre Wales. Byddai ef neu hi yn gyfrifol am amrywiol dasgau gweinyddol a phrosiectau ar draws y cyfnod tymor sefydlog o 12 mis.

Mae'r rôl yn cael ei chynnal ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro a'r cymhwyster a enillir ar ôl cwblhau'r cwrs yw Diploma Lefel 3 mewn Digwyddiadau Byw a Hyrwyddo.

Byddai'r rôl hon yn ddelfrydol i rywun sydd eisiau ennill gwybodaeth drylwyr am ddigwyddiadau byw, tra'n gweithio i gwmni cenedlaethol. Mae hon yn rôl ddatblygu ac er y byddem yn disgwyl i'r ymgeisydd delfrydol gael ychydig o brofiad o ddigwyddiadau byw, byddem am iddynt ennill sgiliau a phrofiadau newydd yn ystod eu hamser gyda NTW. Ar ddiwedd y flwyddyn byddem am i'r ymgeisydd deimlo'n ddigon hyderus i symud ymlaen at gam nesaf ei yrfa.

Yn adrodd i:

Uwch Weinyddydd Cynhyrchu

Cyfrifoldebau Rheoli Llinell

Cyfrifoldebau Rheoli Llinell

Gweithio i NTW

Mae pob aelod o staff yn National Theatr Wales â rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni nodau y cwmni. Rydym i gyd yn eiriolwyr ar gyfer gwaith y cwmni. Mae mynychu cyfarfodydd y Cwmni a chyfarfodydd Syniadau, ac ymgyfraniad gweithredol gyda NTW TEAM yn rhan annatod o waith pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob swydd-ddisgrifiad, mae'r gweithgareddau Cwmni gyfan hyn yn rhan allweddol o gyfraniad a chyflawniad pob aelod o staff.

Tasgau a Modiwlau Allweddol

Cynhyrchu, Cyfathrebu a Chydweithredu

Gweithio gyda a helpu gwahanol feysydd craidd busnes y cwmni (Marchnata, Cynhyrchu, Cyllid, Codi Arian a Gweinyddiaeth) wrth weinyddu a chynllunio ar gyfer prosiectau a chynrychiadau. Hefyd gweithio gyda'r rhaglenni Datblygiad Creadigol a Chydweithredu Rhaglenni yn cefnogi prosiectau a digwyddiadau.

- Darparu cymorth gweinyddol ar gyfer yr holl weithgarwch cynhyrchu, gan gynnwys archebu lleoliadau, teithio a llety
- Cyfrannu at baratoi'r contractau ar gyfer digwyddiad byw
- Paratoi a chynnal cyllideb ar gyfer digwyddiad byw
- Gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill mewn cyd-destun creadigol a diwylliannol
- Dysgu a sicrhau cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch
- Cyfrannu at gynhyrchu a phrawf ddarllen copi hysbysebu, a dosbarthu deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiad byw
- Deall rôl marchnata a hysbysebu mewn digwyddiadau byw a hyrwyddo
- Cynorthwyo'r Adran Datblygu ar weinyddu ceisiadau am arian a nodi ffrydiau ariannu
- Ymgymryd â gweithgareddau i sicrhau arian ar gyfer digwyddiad byw
- Cyfrannu at gynllunio teithiau, sioeau a digwyddiadau
- Deall y wybodaeth graidd sydd ei hangen ar y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Nid yw'r swydd-ddisgrifiad hwn yn gynhwysfawr ac mae'n bosibl y caiff y cyfrifoldebau eu newid neu yr ychwanegir atynt.

Manyleb y Person

HANFODOL

Profiad

- Diddordeb profedig mewn digwyddiadau byw mewn unrhyw gyd-destun.

Gwybodaeth a Sgiliau

- TGAU Gradd C mewn Saesneg a Mathemateg
- Sgiliau trefnu a gweinyddol amlwg
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Dealltwriaeth o sut mae digwyddiadau byw a diwylliannol yn gweithredu
- Hyder wrth ddefnyddio technoleg ddigidol

Priodoleddau Personol

- Uchelgais i weithio yn y diwydiant Digwyddiadau Byw
- Ymrwymiad i weithio mewn tîm a dull hyblyg at arferion gweithio
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhoi sylw i fanylion a chywirdeb

- Mwynhau rhannu a thrafod syniadau, creu cysylltiadau, a gwneud i bethau ddigwydd

DYMUNOL

- TGAU Gradd C mewn TGCh
- Gwybodaeth am fyd y celfyddydau yng Nghymru
- Sgiliau iaith Gymraeg
- Brwdfrydedd dros y celfyddydau yn gyffredinol a'r theatr yn benodol

Bydd y swydd yn golygu gwaith achlysurol ar benwythnosau a gyda'r nos. Bydd y swydd hefyd yn golygu ychydig o deithio yng Nghymru ac o bosibl yng ngweddill y DU.

Rydym yn annog ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned ac yn arbennig y rhai sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn NTW, gan gynnwys pobl o liw a phobl anabl.

TELERAU AC AMODAU

Cyflog: £9,204 y flwyddyn

Oriau: 30 awr yr wythnos (yn cynnwys egwyl ginio orfodol o un awr y diwrnod)

Gwyliau: 25 diwrnod, pro rata (ac eithrio gwyliau banc statudol)

Cyfnod: Contract tymor sefydlog (12 mis). Yn agored i rywun rhwng 18 a 20 oed
Hysbysiad: Yn dilyn cwblhau'r cyfnod prawf tri mis yn llwyddiannus, y cyfnod o rybudd yw un mis ar y naill ochr.

Pensiwn: Ar ôl cwblhau cyfnod prawf tri mis boddhaol mae'r cyflogwr yn cynnig pensiwn rhanddeiliaid gyda Scottish Life, lle y gellir didynnu cyfraniadau o'ch cyflog. Ceir cyfraniad o 3% gan y Cyflogwr ar hyn o bryd (mae cyfraniad cyflogai yn ôl ei ddisgresiwn ei hun). Nid yw'r gyflogaeth hon wedi'i chontractio allan o gynllun pensiwn y Wladwriaeth.